## CVs ACADEMAIDD / YMCHWILYDD

Un o brif wahaniaethau CV academaidd yw ei hyd, mae'n berffaith dderbyniol iddo fod yn hwy na 2 ochr o bapur A4, gan fod angen mwy o fanylion yn aml. Ond mae'n rhaid i chi ei deilwra i'r swydd rydych yn ymgeisio amdani a sicrhau nad yw'n rhy hir. Unwaith eto, chi sydd i benderfynu pa adrannau penodol i'w cynnwys, neu ym mha drefn rydych eisiau cyflwyno'r wybodaeth ar eich CV ond dyma rai is-benawdau a awgrymir:

- Manylion personol - enw a manylion cyswllt
- Addysg - yn nhrefn amser gyda'r diweddaraf yn gyntaf - nid oes angen cynnwys TGAU ar y lefel hon
- Diddordebau ymchwil - amlinelliad byr o'r hyn yr ydych wedi'i wneud ac i ba gyfeiriad y mae hyn yn arwain
- Profiad ymchwil - unwaith eto yn nhrefn amser gyda'r diweddaraf gyntaf gan dynnu sylw at unrhyw gyllid sydd wedi ei ddyfarnu neu ei sicrhau
- Cyllid - gwobrau am brojectau, mynd i gynadleddau, hyfforddiant ac yn y blaen.
- Profiad addysgu - tynnu sylw at unrhyw brofiad addysgu sydd gennych
- Profiad gweinyddol - er enghraifft cydlynu cyrsiau
- Sgiliau - unrhyw sgiliau arbenigol perthnasol. Gall hefyd fod yn gyfle i chi ddangos sgiliau trosglwyddadwy mwy cyffredinol (perthnasol) nad ydych wedi rhoi tystiolaeth ohonynt yn rhywle arall yn y cais.
- Cymwysterau proffesiynol - aelodaeth o gymdeithasau etc.
- Hyfforddiant - unrhyw hyfforddiant / datblygiad proffesiynol parhaus perthnasol a wnaed
- Cyhoeddiadau - yn cynnwys erthyglau, penodau neu lyfrau, adroddiadau etc.
- Cynadleddau a seminarau - rhowch fanylion am y rhai rydych wedi bod ynddynt gan dynnu sylw at unrhyw gyflwyniadau a roddwyd gennych
- Tystlythyrau - fel rheol byddwch angen o leiaf ddau (os nad tri i swyddi academaidd)

Os ydych yn gwneud cais am swydd ymchwil mewn diwydiant/lleoliad masnachol, bydd raid i chi ddefnyddio CV ar ffurf fwy safonol (yn nhrefn amser neu'n seiliedig ar sgiliau) ond bydd dal angen i chi dynnu sylw at eich ymchwil.

Mae gan Vitae.ac.uk ganllawiau mwy manwl am hyn, yn ogystal â bod yn adnodd rhagorol ar sut i ysgrifennu CV a marchnata eich hun yn gyffredinol, ynghyd â dangos amrywiaeth o CVs enghreifftiol ar gyfer swyddi academaidd ac ymchwil. Ewch i'r ddau yma:

https://www.vitae.ac.uk/researcher-careers/career-management-for-researchers/creating-effective-cvs-as-a-researcher

https://www.vitae.ac.uk/researcher-careers/pursuing-an-academic-career/how-to-write-an-academic-cv

Gellwch weld enghraifft o arddull CV academaidd hefyd yn:

http://www.prospects.ac.uk/assets/assets/documents/cv_academic.pdf

Ewch i http://www.kent.ac.uk/careers/cv/pgstudycv.htm i weld CV enghreifftiol ar gyfer myfyriwr isradd sy'n gwneud cais am gwrs astudiaethau ôl-radd.